

20/11/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae hi wedi bod yn dymor prysur hyd yn hyn ym Mryn Tawe ac mae ymateb ein disgyblion, eich plant chi, wedi bod yn arbennig o dda ar y cyfan i'r sefyllfa anarferol rydym yn ei hwynebu'n ddyddiol. Hoffwn longyfarch disgyblion blynyddoedd 9-13eg am eu hymrwymiad arbennig i ddysgu o bell yn ystod y clo bach. Er nad yw dysgu o'r fath mor effeithiol â bod yn y dosbarth gyda'u hathrawon, mae'n allweddol bwysig sicrhau ymrwymiad er mwyn parhau i ddysgu yn y cyfnod yma. Mae partneriaeth gref rhwng yr ysgol a'r cartref yn bwysig iawn i gefnogi ein disgyblion, eich plant chi, i lwyddo drwy gyrraedd eu potensial fel gallant fod y fersiwn gorau posib o'u hunain.

### MEDRAU DARLLEN:

Mae'r 'Clo Mawr' yn naturiol wedi cael effaith ar fywydau ein disgyblion gan gynnwys eu dysgu. Yn dilyn dadansoddiad o brofion darllen diweddar i ddisgyblion CA3, fe welwn yn glir bod y cyfnod estynedig allan o'r ysgol wedi effeithio'n negyddol ar fedrau darllen rhai o'n disgyblion. Drwy sicrhau profiadau a chyfleoedd darllen yn gyson yn y cartref, yn ogystal â'n ffocws ni fel ysgol ar rymuso medrau darllen, hyderwn y gallwn gefnogi ein disgyblion i wella fel y gallant fwynhau eu profiadau dysgu i'r eithaf. Gofynnwn i chi fel rhieni i sicrhau bod eich plentyn yn treulio o leiaf 10 munud y dydd yn darllen yn y ddwy iaith. Am ragor o gefnogaeth a syniadau pellach, [cliciwch yma](#).

### Y GYMRAEG YM MRYN TAWE:

Rydym yn ymfalchio'n fawr yn ymateb nifer fawr o'n disgyblion yn ein hymgyrch diweddar i gynyddu a gwella defnydd o'r Gymraeg ym Mryn Tawe drwy wobrwyo eu hymdrechion positif. Fel unrhyw sgil, mae ei ymarfer yn dod â gwelliannau sylweddol sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu eich plant. Mae eich cefnogaeth chi i annog defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ymysg eu ffrindiau a chyda brodyr neu chwiorydd yn bwysig iawn i lwyddiant eich plentyn ym Mryn Tawe. Diolch am eich cefnogaeth gyda'r ymgyrch bwysig iawn yma. Byddwn yn rhannu syniadau drwy ein safwe ar sut i gefnogi eich plentyn gyda'r Gymraeg, yn ogystal â manteision addysg ddwyieithog i drafod gyda'ch plentyn.

### NOSWEITHIAU RHENI AC ADRODDIADAU:

Fel arfer bydd disgyblion blynyddoedd 7-10 a 12 yn derbyn 'Adroddiad Interim' ar ddiwedd y tymor yma, tra bydd disgyblion blwyddyn 13eg yn derbyn eu hadroddiad llawn. Oherwydd mesurau Cofid, nid yw'n bosib i ni gynnal nosweithiau rhieni fel yr arfer ar hyn o bryd (ac yn debygol o barhau am o leiaf Tymor y Gwanwyn hefyd). Felly, bydd rhieni disgyblion:

- **Blwyddyn 11** yn derbyn 'Adroddiad Noson Rieni' yn amlinellu cryfderau eich plentyn a thargedau clir i wella eu cynnydd yn eu pynciau TGAU. Os byddwch yn teimlo eich bod am drafod unrhyw agwedd o'r adroddiad ymhellach, mae croeso i chi gysylltu gydag athro eich plentyn.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR**  
**MEWN POBL**

Aur



- **Blwyddyn 12 a 13eg** yn derbyn galwad ffôn ar ddydd lau'r 09/12/20 gan athrawon pwnc eich plentyn i drafod cynnydd eich plentyn - ei gryfderau a meysydd penodol i wella yn ei bynciau.

#### **GWASANAETH NADOLIG:**

Ni fyddwn yn cynnal ein gwasanaeth Nadolig arferol eleni, ond mae nifer o'r staff a'r disgyblion wrthi yn paratoi cyfres o berfformiadau fel y gallwn ddathlu'r Nadolig gyda'n gilydd fel cymuned yr ysgol yn rhithiol.

#### **BWYDLEN NEWYDD YN Y FFREUTUR:**

Os yw eich plentyn yn dewis bwyta yn ffreutur yr ysgol, rwy'n siŵr eu bod wedi sôn am y fwydlen newydd sydd ar gael. Cliciwch [yma](#) i weld y fwydlen newydd sydd yn cael ei weini.

#### **OFFER DYSGU PERSONOL:**

Yn gyffredinol, mae nifer o'n disgyblion yn arbennig o dda yn trefnu eu hunain ac yn sicrhau eu bod yn dod â'r offer angenrheidiol i ddysgu bob dydd. Yn anffodus, mae hi wedi dod i'r amlwg ers hanner tymor bod mwy o ddisgyblion yn 'anghofio' offer angenrheidiol i ddysgu. Er mwyn sicrhau lleihau'r posibilrwydd o ledaenu'r firws, gofynnwn i bob rhiant sicrhau bod eu plentyn yn dod â'r offer angenrheidiol i ddysgu yn ddyddiol. Ni fyddwn yn gallu rhannu offer dysgu gyda'r disgyblion. Mae cefnogi eich plentyn felly i ddatblygu arferion hunan drefniant grymus drwy eu hatgoffa i baratoi a threfnu eu hunain drwy wirio a phacio beth sydd angen y noson gynt yn bwysig. Diolch am eich cefnogaeth barhaus gyda hyn.

Rydym yn parhau i annog disgyblion i ddod a dyfeisiau eu hunain i'r ysgol er mwyn cefnogi eu dysgu. Os yw eich plentyn wedi benthgyn cliniadur gan yr ysgol i gefnogi gweithio o bell, gai pofyn i chi ei ddychwelyd fle y gallwn eu defnyddio yn yr ysgol i ysgogi dysgu'r disgyblion i gyd. Os fydd angen hunan ynysu, byddwn yn gallu darparu cliniadur unwaith eto i'ch plentyn.

Diolch am eich cefnogaeth unwaith eto yn hyrwyddo negeseuon pwysig am lynu at fesurau Cofid er mwyn i ni gyd weithio i sicrhau bod Bryn Tawe yn ysgol Gofid diogel.

Os hoffech drafod unrhyw fater uchod ymhellach, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi yn yr ysgol.

Yn gywir,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR**  
**MEWN POBL**

Aur

